# Foodex, Japan

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

PRYD
**5-8 Mawrth, 2024**

PRIF SECTORAU
**Bwyd a Diod**




© Photo by Jezael Melgoza on Unsplash

## PAM FOODEX 2024?

**Hoffai Llywodraeth Cymru wahodd eich cwmni i gyd-arddangos yn Foodex, Japan.**

Mae Foodex, Japan yn ganolbwynt ar gyfer nifer o drafodaethau busnes gyda phrynwyr Bwyd a Diod gorau o bob rhan o Asia, yn ogystal â Japan. Bydd arddangoswyr o 60 o wledydd a rhanbarthau ledled y byd yn cyfrannu at ddatblygiad y diwydiant bwyd nid yn unig yn Japan ond yn fyd-eang.

## PAM MYND?

Bydd yr ymweliad hwn yn rhoi cyfle i chi arddangos eich cwmni, creu cysylltiadau gwerthfawr a chynyddu eich allforion yn y sector hwn sy'n borth i Japan a marchnadoedd Asiaidd eraill.

Drwy gymryd rhan, byddwch yn elwa ar:

- Ffordd gosteffeithiol o ymweld â'r farchnad
- Cael presenoldeb o dan frand Cymru/Wales ochr yn ochr â stondin y DU
- Rhwydweithio ac ymgysylltu â busnesau allweddol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y farchnad
- Rhannu profiadau a gwybodaeth â chyfranogwyr eraill
- Cael eich cynnwys mewn unrhyw ddeunyddiau marchnata

## Y GOST

Mae'r gost i arddangos wedi derbyn cymhorthdal gan Lywodraeth Cymru.

**Cost Arddangoswr – £3,030.00 (ynghyd â TAW), fesul arddangoswr, yn seiliedig ar stondin 4 metr sgwâr. Gall stondinau mwy fod ar gael drwy wneud cais.**

- Taith awyren yno ac yn ôl o Heathrow (efallai y bydd teithiau eraill ar gael/gall fod cost ychwanegol), 5 noson o lety (cyrraedd y diwrnod cyn y sioe) gyda brecwast, i un person
- Pris person ychwanegol £1,500 (ynghyd â TAW)
- Gofod arddangos pwrpasol o dan frand Cymru/Wales ochr yn ochr â stondin y DU
- Paneli graffig sylfaenol a dodrefn
- Cael eich cynnwys yn nhaflen wybodaeth y sioe ac mewn deunyddiau marchnata
- Tocyn arddangos arddangoswr
- Cefnogaeth ar y safle gan staff Llywodraeth Cymru
- **Sylwch fod arddangoswyr yn gyfrifol am ddanfon eu nwyddau**

**Efallai y bydd ymweliadau allforio ar gael. Cysylltwch â ni i drafod eich anghenion.**

## DYDDIAD CAU:

**6 Rhagfyr 2023**

Os caiff eich cais ei gyflwyno ar ôl y dyddiad hwn, mae'n bosib y bydd taliadau ychwanegol am deithiau a/neu lety.

Anfonwch e-bost am ffurflen gais neu ragor o wybodaeth: shirley.mcgilvray@llyw.cymru

WG48665 / © Hawlfraint y Goron 2023 OGL